Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

## Briff i'r sector: prifysgolion

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Rhagair

O dan Adran 129 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys dysgwyr ym mhroses benderfynu eu darparydd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr:

- gymryd rhan ym mhroses eu darparydd o wneud penderfyniadau perthnasol;
- cael cynrychiolaeth effeithiol i'w lleisiau ym mhroses benderfynu eu darparydd; ac
- rhoi eu barn ar yr addysg maen nhw'n ei derbyn a materion sy'n destun pryder, neu o ddiddordeb iddynt.

Cynhaliodd Medr ymgynghoriad ar ddrafft y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn nhymor yr hydref 2025, a chyhoeddi'r Cod terfynol ym mis Ebrill 2026. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darparydd yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru: sefydliadau addysg bellach ac uwch, darparwyr prentisiaethau, darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, ac ysgolion sy'n cynnwys chweched dosbarth. Mae'n ofynnol i Brifysgolion gydymffurfio â'r Cod o **1 Awst 2026**, fel amod yn gysylltiedig â chyllid.

Wrth inni ymgynghori a chynnal trafodaethau ehangach â'r sector trydyddol, gofynnodd darparwyr inni sicrhau bod y Cod yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'r amrywiaeth eang iawn o sefydliadau a dysgwyr a geir yng ngwahanol rannau o'r sector. Rydym wedi datblygu'r briff hwn fel rhan o gyfres o ddeunyddiau cyfeiriol sy'n gosod y Cod yn ei gyd-destun ym mhob rhan o'r sector trydyddol. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ymarferol ynghylch sut rydym yn disgwyl i'r Cod gael ei weithredu a'r dystiolaeth ar ei gyfer. Bwriedir iddo gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cod ei hun, sy'n nodi'r gofynion penodol y mae'n rhaid i bob darparydd eu bodloni a'r dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt ei darparu i Medr i ddangos cydymffurfiaeth.

Byddwn yn parhau i adolygu'r briff hwn i adlewyrchu'r adborth gan ddysgwyr a darparwyr, ac i ychwanegu adnoddau ac enghreifftiau pellach wrth iddynt gael eu datblygu.

## Ar gyfer pwy mae'r briff hwn?

- Staff a llywodraethwyr prifysgolion
- Undebau myfyrwyr
- Myfyrwyr mewn prifysgolion gan gynnwys y rhai mewn rolau fel myfyrwyr-gynrychiolwyr

## Cyd-destun y sector: Prifysgolion

Bydd myfyrwyr gradd amser llawn fel arfer yn treulio tair blynedd yn astudio un rhaglen mewn prifysgol. Fel arfer, mae eu haddysg wedi'i lleoli'n bennaf ar gampws neu mewn adeiladau penodol yn y brifysgol mewn tref neu ddinas benodol, gan roi ffocws ac amgylchedd sefydlog iddynt. Gall eu cwrs hefyd gynnwys lleoliad gwaith a drefnir ac a oruchwylir gan eu prifysgol. Mae prifysgolion hefyd yn cynnal cymysgedd ehangach o ddysgwyr; myfyrwyr ôl-radd a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-radd, myfyrwyr rhan-amser a rhai sy'n astudio ar-lein neu o bell, pob un â phatrymau ymgysylltu gwahanol.

Dros nifer o flynyddoedd, mae prifysgolion wedi datblygu arferion cryf a chadarn i ymgysylltu â'u myfyrwyr. Ochr yn ochr â chynrychiolaeth ffurfiol, maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau i ddeall anghenion myfyrwyr a'u cynnwys mewn prosesau sicrhau ansawdd a gwella. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys arolygon mewnol a chenedlaethol (e.e. yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, yr Arolwg o Brofiadau Myfyrwyr Ôl-radd a Addysgir, a'r Arolwg o Brofiadau Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd), grwpiau ffocws, gwerthusiadau o fodiwlau, dadansoddiad o gwynion, a chyfleoedd partneriaeth sy'n dod â myfyrwyr a staff ynghyd i siapio gwelliannau.

Mae gan bob prifysgol yng Nghymru undebau myfyrwyr sy'n annibynnol ar y sefydliad ac yn gweithredu fel corff cynrychioliadol cydnabyddedig ar gyfer myfyrwyr. Mae'r undebau hyn, ynghyd â strwythurau cynrychioli myfyrwyr sydd wedi'u hymgorffori, yn sicrhau bod barn myfyrwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at brosesau llywodraethu, prosesau penderfynu a gwaith cynllunio strategol y brifysgol. Maent yn greiddiol i gydymffurfiaeth prifysgolion â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Un o'r prif heriau i sefydliadau yw sicrhau bod myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn penderfyniadau yn cynrychioli'r corff ehangach o fyfyrwyr, a bod cyfleoedd i gymryd rhan yn hygyrch i bawb. I'r perwyl hwn, mae angen gweithio mewn partneriaeth ag undebau myfyrwyr a dylunio gweithgareddau ymgysylltu yn ofalus, allgymorth rhagweithiol, a dulliau hyblyg sy'n bodloni anghenion amrywiol gwahanol grwpiau o fyfyrwyr.

## Gofynion y Cod

Gofynion ar gyfer 2026 - 2027

- Cyn diwedd y flwyddyn academaidd, **rhaid** i brifysgolion gyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltiad effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau
- **Rhaid** i hwn gydymffurfio ag egwyddorion Y Cod
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (Hydref 2027)

Gofynion o 2027 - 2028

- **Rhaid** i brifysgolion adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- **Rhaid** i brifysgolion ddarparu tystiolaeth o effaith ymgysylltu â dysgwyr
- Tystiolaeth yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2028)

Llywodraethu

- **Rhaid** i'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol) gadarnhau cydymffurfiaeth yn flynyddol
- Sicrwydd yn ofynnol drwy'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol (o Hydref 2027)

Myfyrwyr

- **Rhaid** i fyfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad
- **Rhaid** hyrwyddo'r ymrwymiad mewn ffyrdd sy'n hygyrch i ddysgwyr

Mae'n **rhaid** i'r ymrwymiad gynnwys:

- Sut y caiff ymgysylltu â myfyrwyr ei ymgorffori a'i gefnogi wrth wneud penderfyniadau
- Sut yr aeth undeb y myfyrwyr ati i ddatblygu (adolygu) yr ymrwymiad ar y cyd
- Sut mae myfyrwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (a'i adolygu)
- Sut y rhoddir ystyriaeth i farn myfyrwyr amrywiol
- Pa fyfyrwyr sydd wedi'u cynnwys

**Rhaid** i brifysgolion weithio mewn partneriaeth ag undebau myfyrwyr i:

- gyd-gynhyrchu'r ymrwymiad
- adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol
- ei hyrwyddo mewn ffyrdd hygyrch ymhlith myfyrwyr drwy sianelau'r brifysgol ac undeb y myfyrwyr

**Rhaid** i'r corff sy'n cynrychioli myfyrwyr lofnodi'r ymrwymiad i gadarnhau'r gofynion uchod mewn perthynas â gwaith partneriaeth.

## Yr ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr

Mae'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgolion weithio mewn partneriaeth ag undebau myfyrwyr i ddatblygu a chyhoeddi ymrwymiad i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, yn unol ag egwyddorion y Cod.

**Rhaid** i brifysgolion hefyd ystyried cyfleoedd i ymgysylltu â myfyrwyr fel rhan o unrhyw drefniadau partneriaeth. Mae'r Cod yn berthnasol i bob darpariaeth drydyddol a gyflwynir ar ran y Brifysgol drwy drefniadau is-gontract neu freinio. Lle ceir trefniadau dilysu, rhaid i'r Brifysgol gael sicrwydd bod gan ei phartner drefniadau sy'n cyd-fynd â'r Cod, lle bynnag y bo modd. Dylai'r ymrwymiad gyfeirio at wybodaeth am y trefniadau hyn os ydynt ar wahân i ymrwymiad y Brifysgol.

Dylai prifysgolion ac undebau myfyrwyr barhau i ddilyn Canllawiau Diwygiedig CCAUC ar Arfer Da wrth Gyllido Undebau Myfyrwyr, a Chynrychiolaeth i Fyfyrwyr, sy'n Effeithiol a Democrataidd. Yn rhan o hyn, bydd ganddynt Gytundeb Perthynas ar wahân sy'n esbonio eu dulliau o weithio - **rhaid** cynnwys cyfeiriad at y cytundeb hwn o fewn yr ymrwymiad.

Nid yw Medr yn manylu'n benodol ar strwythur na ffurf yr ymrwymiad, ac mae'n cynghori y dylai fod ar y ffurf sy'n fwyaf priodol i bob darparydd neu gonsortiwm a'i ddysgwyr. Gall hyn gynnwys enghreifftiau symlach neu fwy gweledol o ymgysylltu â dysgwyr, gyda dolenni i ddogfennau ysgrifenedig mwy ffurfiol lle bo angen er mwyn bodloni gofynion y Cod.

## Gall prifysgolion ymgysylltu â dysgwyr yn effeithiol drwy:

- Ddarparu a hyrwyddo llwybrau i bob myfyriwr gymryd rhan mewn penderfyniadau, rhoi adborth, gwneud cwynion a chodi materion sensitif yn gyfrinachol a heb ofn
- Casglu a dadansoddi adborth yn rheolaidd drwy arolygon myfyrwyr gan gynnwys ar lefel darparwyr ac yn genedlaethol, drwy werthusiadau o fodiwlau neu'n gysylltiedig â gwasanaethau a gyrchir gan fyfyrwyr unigol, a gweithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr myfyrwyr i ddeall y materion sylfaenol a chytuno ar gamau gweithredu.
- Darparu llwyfannau digidol ar gyfer ymgysylltu; fforymau trafod ar-lein, apiau adborth, cyfarfodydd neuadd dref rhithwir neu fyrddau trafod
- Ymgysylltu â myfyrwyr yn eu lleoliadau presennol, drwy glybiau, cymdeithasau a grwpiau cynrychioliadol
- Cynnig cyfleoedd am bartneriaeth sy'n dod â myfyrwyr a staff ynghyd i lunio gwelliannau, datblygu cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer dysgu.
- Cefnogi undeb y myfyrwyr i gyflawni ei rôl yn effeithiol fel llais cynrychioliadol y myfyrwyr, gan gynnwys hwyluso strwythurau cynrychioli ffurfiol ar bob lefel
- Gweithio gydag undeb y myfyrwyr i ddeall nodweddion, hunaniaethau ac anghenion y corff amrywiol o fyfyrwyr
- Galluogi a chefnogi rolau myfyriwr-gynrychiolwyr o fewn strwythur llywodraethu ac ar bwyllgorau'r brifysgol, gan gynnwys rôl myfyriwr-lywodraethwyr (gweler yr adran "Dolenni ac adnoddau defnyddiol" am ganllawiau ar gefnogi myfyriwr-lywodraethwyr mewn AU).
- Gweithio gydag undeb y myfyrwyr i ystyried lle gallai fod yn briodol i'w staff fod yn aelodau o grwpiau a phwyllgorau'r brifysgol, gan roi cefnogaeth i fyfyriwr-gynrychiolwyr a mewnwelediad i weithgarwch gweithredol
- Sicrhau bod y corff llywodraethu cyfan wedi'i hyfforddi a'i gefnogi i ymgysylltu'n effeithiol â myfyriwr-gynrychiolwyr, ac i ystyried llais y myfyriwr wrth wneud penderfyniadau
- Ymgorffori mecanweithiau clir ar gyfer cynnwys myfyrwyr ac ystyried profiad myfyrwyr o fewn y strwythur llywodraethu, er enghraifft drwy osod agenda ar gyfer hynny a llinell olwg glir ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau.
- Gweithio mewn partneriaeth ag undeb y myfyrwyr i gasglu, dadansoddi ac ymateb i farn myfyrwyr mewn modd systematig, gan gyfrannu at strwythurau llywodraethu, prosesau penderfynu a phrosesau sicrhau ansawdd a gwella'r brifysgol
- Manteisio ar yr hyfforddiant, y gefnogaeth a'r adnoddau a ddarperir gan Medr drwy brosiectau a ariennir, fel hyfforddiant i lywodraethwyr a chefnogaeth yn gysylltiedig â llais y dysgwr, a gyflwynir gan Elusen UCM

**Gallai enghreifftiau o “benderfyniadau perthnasol” ar gyfer myfyrwyr gynnwys:**

- Cyd-ddylunio dysgu, addysgu ac asesu
- Adolygiadau, dilysiadau ac ail-ddilysiadau cwrs
- Adolygiad o gynhwysiant yn y cwricwlwm
- Datblygu ac adolygu strategaethau a pholisïau prifysgol sy'n effeithio ar brofiad y myfyrwyr, fel polisïau llesiant neu strategaethau'r Gymraeg
- Cynlluniau i ddiweddaru a datblygu'r ystadau sy'n effeithio ar brofiadau myfyrwyr
- Penderfyniadau ynghylch cau cyrsiau neu amrywio darpariaeth i raddau sylweddol, lle gallai'r rhain effeithio ar brofiad myfyrwyr, neu eu gallu i barhau â'u cwrs neu ei orffen
- Datblygu Cynlluniau a Threfniadau Diogelu Dysgwyr
- Gweithdrefnau cwyno'r brifysgol
- Gwerthuso a gwella gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr

## Dolenni ac adnoddau defnyddiol

**Canllawiau Statudol:**

- Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru), 2014
- Deddf Addysg Rhan II, 1994

**Canllawiau a gwybodaeth am arfer da:**

- Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch: Cyngor ac Arweiniad – Egwyddor 2 – Ymgysylltu â myfyrwyr fel partneriaid, 2025
- Ymchwil i'r Bartneriaeth â Myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru, 2020
- Canllawiau diwygiedig ar arfer da wrth gyllido undebau myfyrwyr a chynrychiolaeth i fyfyrwyr sy'n effeithiol a democrataidd (2014)

Mae Medr yn ariannu Elusen Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) i gefnogi ymgysylltu â dysgwyr a llais y dysgwr yn y sector AU, gan gynnwys darparu hyfforddiant i fyfyriwr-lywodraethwyr. Dylai darparwyr fanteisio ar rwydweithiau sector, hyfforddiant ac adnoddau a ariennir gan Medr i ymgorffori a chefnogi ymgysylltu effeithiol â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau.

## Cysylltu â ni

ymgysylltuadysgwyr@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**